



CYSWLLT Y PRIF WEITHREDWR

Annwyl gydweithiwr,

09/08/2022

Mae'r wythnos hon yn nodi chwe mis ers i mi ymuno â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a gallaf ddweud yn onest fod pawb yr wyf wedi cyfarfod â hwy wedi fy nghoesawu'n gynnes ac wedi bod mor hael wrth roi o'u hamser i'm helpu i ddeall cymhlethdodau a graddfa'r sefydliad hwn.

Mae gennym dîm hynod ymroddedig yma ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ac rwy'n wirioneddol ddiolchgar i bawb sydd wedi fy nghefnogi yn fy rôl fel Prif Weithredwr hyd yn hyn, o'r Tîm Gweithredol i'r holl gydweithwyr rwyf wedi bod yn ddigon ffodus i gwrdd â hwy, dod i'w hadnabod a gweithio gyda hwy dros y chwe mis diwethaf.

Ers y diwrnod cyntaf un rwyf wedi bod eisiau treulio cymaint o amser â phosib yn cwrdd â chydweithwyr a phartneriaid newydd yn ogystal ag ymweld â'n safleoedd ac mae hyn wedi bod yn ddefnyddiol iawn i'm helpu i wella fy nealltwriaeth o'r Bwrdd Iechyd, felly diolch. Yr hyn sydd wedi fy nharo fwyaf yw'r penderfyniad, yr ymrwymiad a'r angerdd gwirioneddol rydych chi i gyd yn ei ddangos yn eich rolau, ac mae'n fy ngwneud yn falch iawn o arwain sefydliad sy'n cynnwys pobl sy'n poeni'n wirioneddol am eraill ac sydd bob amser yn ymdrechu i ddarparu'r gofal gorau posibl i gleifion a'u hanwyliaid.

Dyw hynny ddim i ddweud nad yw wedi bod yn heriol. Fel y gwyddoch, rydym ni a

thimau'r GIG ym mhobman yn parhau i fod o dan bwysau enfawr ar draws gofal sylfaenol, eilaidd a thrydyddol yn y meysydd iechyd corfforol a meddyliol, deintyddiaeth yn ogystal â gwasanaethau cymunedol a phlant. Mae ein cydweithwyr yn yr awdurdodau lleol a'r maes gofal cymdeithasol yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg hefyd yn profi pwysau mawr iawn ar draws eu gwasanaethau sydd wrth gwrs yn cael effaith arnom ni hefyd. Mae effeithiau llawn y pandemig yn dod i'r amlwg yn araf, ac ochr yn ochr â'r argyfwng costau byw, rydyn ni'n anelu at hydref a gaeaf caled felly bydd aros yn wydn fel tîm a pharhau i gydweithio a chefnogi ein gilydd yn bwysig iawn.

Serch hynny, mae'n bwysig dathlu'r ystod helaeth o waith arloesol rydych chi'n ei gyflawni. Fel tîm, mae gennym lwyddiannau lu i ymfalchïo ynddynt (gormod i sôn amdanynt i gyd yma!) o'r gwaith anhygoel yn y maes meddygaeth fanwl a Phartneriaeth Genomeg Cymru i'r Uned Asesu Llawfeddygol yr Un Diwrnod a sefydlwyd yn ddiweddar, i waith cydweithwyr mewn gwasanaethau sylfaenol a chymunedol fel y timau Nyrsio Ardal, y dull 'Dim Drws Anghywir' arloesol yn y maes iechyd meddwl, a datblygu cyfleusterau i gefnogi iechyd a lles y cleifion a'r tîm megis Horatio's Garden yn Ysbyty Athrofaol Llandochoau (YALI) a'r cyfleuster Camerados yn Ysbyty Athrofaol Cymru (YAC). Heb sôn am y gofal a'r driniaeth aruthrol a ddarperir yn rheolaidd i gleifion bob

dydd, a'r holl waith gwych a gyflawnir drwy ymrwymiad ac ymroddiad Tîm CAF.

Wrth edrych yn ôl dros y chwe mis diwethaf, mae cymaint o uchafbwyntiau wedi bod, ac rwyf am gymryd y cyfle hwn i rannu rhai ohonynt gyda chi yn y rhifyn hwn o Cyswllt y Prif Weithredwr.

Un ymweliad a oedd yn uchafbwynt i mi oedd cwrdd â Gwasanaeth Cynhwysiant Iechyd Caerdydd a'r Fro yn Ysbyty Brenhinol Caerdydd (CRI). Datblygwyd y gwasanaeth hwn ar gyfer Ceiswyr Lloches, cymunedau digartref a gweithwyr rhyw i roi lle diogel iddynt gael mynediad at ofal iechyd. Mae'r gwaith maen nhw wedi'i wneud gyda Chynllun Preswyllo Afghanistan yn anhygoel ac roeddwn wrth fy modd o glywed bod dau o Wirfoddolwyr y Groes Goch yno yn weithwyr cymheiriaid a gafodd gefnogaeth y gwasanaeth eu hunain yn y gorffennol. Yn fwy diweddar mae'r tîm wedi bod yn rhoi cymorth a chefnogaeth wych i ffoaduriaid o'r Wcráin.

Mae'r Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol yn darparu gwasanaeth 24 awr ar gyfer gwaith fforensig yr heddlu yn ogystal â chymorth, cefnogaeth a chynghor i bobl sydd wedi profi ymosodiad rhywiol. Roeddwn yn falch o weld y gwaith o adnewyddu'r ganolfan sy'n parhau i gael ei datblygu mewn partneriaeth â'r heddlu, y gwasanaethau iechyd a gwirfoddol i sicrhau bod pobl sy'n profi ymosodiad rhywiol yn cael y gofal gorau posib.

Roeddwn yn ddiolchgar iawn i gael fy ngwahodd i ddatlu Eid al-Fitr ym Mosg Dar-ul-Isra yng Nghaerdydd lle cefais gyfle i gyfarfod â llawer o gydweithwyr yn ogystal â phobl o'r gymuned leol. Diolch am y croeso cynnes ac rwy'n edrych ymlaen at ddod yn ôl eto.

Mae BIP Caerdydd a'r Fro wedi cefnogi rhaglen Project SEARCH sy'n helpu pobl ifanc ag anableddau dysgu i ddatblygu'r sgiliau a'r profiad sydd eu hangen arnynt i gael swyddi sy'n talu'n ystyrlon. Roeddwn wrth fy modd i gael cyflwyno tystysgrifau i interniaid Project SEARCH CAF a diolch iddynt am y cyfraniad gwych y maent wedi'i wneud i'r Bwrdd Iechyd.

Mae Canolfan Aelodau Artiffisial a Chyfarpar Cymru yn gwneud gwaith anhygoel i helpu cleifion â namau. Mae'r tîm yn darparu gwasanaeth o safon i gleifion er mwyn helpu i wneud y mwyaf o'u galluoedd ac roedd yn bleser cwrdd â nhw a darganfod mwy am sut maen nhw wedi gwella bywydau cymaint o bobl.

Roedd yn anrhydedd cael fy ngwahodd i fynychu digwyddiad HIV Terrence Higgins yn y Senedd ychydig wythnosau yn ôl i nodi deugain mlynedd ers i Terrence Higgins ei hun ddod y person cyntaf a gafodd ei enwi i farw o salwch yn ymwneud ag AIDS yn y DU.

Rhoddodd y Diwrnod Ystadau a Chyfleusterau Gofal Iechyd Cenedlaethol cyntaf ym mis Mehefin gyfle i mi gwrdd â llawer o'n harwyr di-glod o'r sefydliad – mae ein porthorion, ceidwaid tŷ, seiri coed a chydweithwyr cynnal a chadw, i enwi ond ychydig, i gyd yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at gynnal sefydliad cyfan ac ni allem ddarparu'r gofal iawn i gleifion heb eu cyfraniad hanfodol. Diolch i chi am rannu'ch profiadau gyda ni.

Roedd croesawu'r Gweinidog Amddiffyn, Pobl a Chyn-filwyr, Leo Docherty AS a Chomisiynydd Cyn-filwyr Cymru, James Phillips i Ysbyty Deintyddol y Brifysgol yn gyfle gwych i ddysgu am ffyrdd y gallwn barhau i wella poblogaeth y cyn-filwyr o ran eu hanghenion corfforol ac iechyd meddwl. Mae Rhwydwaith Trawma

Cyn-filwyr Cymru a sefydlwyd yn 2019 yma ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn sicrhau bod gan y cyn-filwyr sydd wedi'u hanafu'n fwyaf difrifol ac sy'n byw yng Nghymru fynediad teg i ofal arbenigol priodol ar gyfer eu hanafiadau, a dim ond yr wythnos diwethaf fe wnes i gyfarfod â thîm GIG Cymru i Gyn-filwyr sydd wedi'i leoli yn y CRI, sy'n darparu pwynt mynediad sengl fel bod cyn-filwyr yn gallu cael mynediad at ystod o wasanaethau iechyd corfforol a meddyliol.

Mae YALL yn gartref i Ein Dôl Iechyd, man gwyrdd cymunedol hardd sy'n rhoi natur wrth wraidd iechyd a lles. Disgleiriodd yr haul pan ymwelais ym mis Mehefin gyda Simone Joslyn, Pennaeth Rhaglen Elusennau a Chelfyddydau Iechyd Caerdydd a'r Fro i gyfarfod â Gweinidog yr Economi yng Nghymru, Vaughan Gething MS a'n partneriaid Down to Earth i dderbyn y Wobr Llawn fawreddog 'Building with Nature'.

Mae Horatio's Garden yn y Ganolfan Adsefydlu Arbenigol yr Asgwrn Cefn a Niwroadsefydlu yn YALL yn fan gwyrdd anhygoel arall i gleifion, cydweithwyr ac ymwelwyr ei defnyddio, ac roedd yn anrhydedd cael gwahoddiad i fynychu'r agoriad swyddogol fis diwethaf a chwrdd â'r arwr rygbi, Syr Gareth Edwards.

Cefais y pleser o gyfarfod â Harry Holland, artist uchel iawn ei barch yn YALL, ac roedd yn gyffrous iawn cael golwg gyntaf ar ei gampwaith diweddaraf o Aneurin Bevan, sylfaenydd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Mae enw addas iawn i'r gwaith celf, sef 'I Bawb', a gellir ei weld ym mhrif fynedfa YALL.

Mae'r Elusen Iechyd yn gwneud gwahaniaeth enfawr i wella profiad cydweithwyr, cleifion a'u teuluoedd yn ogystal â'r gymuned ehangach drwy brosiectau fel y rhain.

Ddim yn hir wedi i mi ymuno â Chaerdydd a'r Fro cefais flas cyntaf ar y Gymraeg ar Ddydd Gŵyl Dewi mewn gwers gan dîm y Gymraeg. Rwy'n mynd i'r afael â'r ynganiadau ac yn ceisio gwella fy ystod geirfa ac ymarfer yr hyn rwyf wedi'i ddysgu hyd yn hyn.

Yn gynharach eleni cafodd GIG 111 Cymru ei gyflwyno yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg i'w gwneud hi'n haws i gleifion gael mynediad i wasanaethau gofal iechyd bob awr o'r dydd. Ar brynhawn Sul cefais gyfle i gwrdd â'r tîm y Tu Allan i Oriau a'r cydweithwyr o CAVOC 24/7 a oedd yn derbyn atgyfeiriadau gan y gwasanaethau 111. Mwynheais gyfarfod y tîm a dysgu am sut maen nhw'n ymateb i anghenion y rhai sy'n gofyn am eu cymorth a'u harbenigedd.

Roedd dathliadau Jiwbilî Platinwm y Frenhines ar draws y safleoedd yn gyfle gwych i godi calon a bod yn rhan o ddathliad cenedlaethol gyda chleifion a chydweithwyr.

Roedd y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol diweddar yn gyfle amserol i fyfyrïo ar ddatblygiad gwych y sefydliad ac roeddem



yn falch iawn o rannu [fideo adolygiad diwedd blwyddyn](#) i ddathlu cyflawniadau'r tîm. Os nad ydych chi wedi cael y cyfle i'w wylïo, ewch ati i wneud, mae'n bleser i'w wylïo.



Rwy'n lwcus iawn i fod yn rhan o dîm CAF ac rwyf am ddweud diolch yn fawr i bob un ohonoch am roi cymaint o groeso i mi, am dreulio amser gyda mi ac yn bennaf oll am ofalu am gleifion a'ch gilydd.

1 - 'I Bawb': Cwrdd â Harry Holland yn YALI i weld ei gampwaith diweddaraf o Aneurin Bevan, sylfaenydd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

2 - Ein Dôl Iechyd: Mae Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn gweithio gyda phartneriaid fel Down to Earth i ddatblygu Ein Dôl Iechyd ymhellach. Credir mai dyma'r prosiect cyntaf o'i fath ar unrhyw safle ysbyty yn y DU.

3 - Cyn-filwyr yng Nghymru: Leo Docherty, Aelod Seneddol Aldershot a Chomisiynydd Cyn-filwyr Cymru, y Cyrnol James Phillips, yn

ymweld â BIP Caerdydd a'r Fro i ddarganfod mwy am gymorth iechyd a lles ar gyfer cyn-filwyr yng Nghymru.

4 - Diwrnod Ystadau: Tynnu sylw at y 1,400 o gydweithwyr yn yr adran Cyfalaf, Ystadau a Chyfleusterau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i ddangos sut maen nhw'n cynnal ein gwasanaethau er mwyn darparu gofal i'n cleifion yn barhaus.

5 - Agor Horatio's Garden; Mynegodd Dr Olivia Chapple a'r Athro Charles Janczewski, Cadeirydd BIP Caerdydd a'r Fro eu diolch am yr ardd, a'r gobaith i wella iechyd a lles staff a chleifion drwy natur a'r amgylchedd.

6 - Lansio strategaeth HIV yng Nghanolfan Mileniwm Cymru – mynychais ddigwyddiad i nodi 40 mlynedd ers marwolaeth Terence Higgins, gyda Rachel Gidman a Jason Roberts.

7 - Ymweld a siarad â staff yn yr Uned

Achosion Brys i drafod a deall y pwysau sy'n eu hwynebu. Yn y llun hefyd mae Aled Roberts CBD Lyndsey MacDonald CD, Richard Lee CD a'r Nyrs Arweiniol Ceri Martin.

8 - Cyfarfod yng Nghanolfan OPAT â Scott McLean, Rheolwr Gyfarwyddwr YAC ac Alun Tomkinson, tîm arwain ar y safle yn YAC – gwneud lle i greadigrwydd ac arloesedd er mwyn gwella ysbytai heddiw a bod yn barod ar gyfer ysbytai yfory.

9 - Ymweliad Ysbyty'r Plant: Cyfarfod â Karenza Moulton – Nyrs Arweiniol, Becci Ingram, Rheolwr Cyffredinol, Dr Rim Al-Samsam, Ymgynghorydd CD a PICU Pediatrig, Andy Jones DON a Clare Rowntree CBD.

Holi Suzanne

Byddaf yn ymweld â Camerados, Yr Ystafell Fyw Gyhoeddus, yng Ngerddi Jiwbilî YAC ddydd Mawrth 9 Awst rhwng 12 a 1pm i gwrdd â chydweithwyr wyneb yn wyneb. Mae croeso i bawb ymuno a dwi'n edrych ymlaen at weld llawer o wynebau. Mae'n sesiwn agored i bob tîm a hoffai ddweud helo, trafod eu gwaith neu ofyn cwestiwn i mi. Lledaenwch y gair i'ch timau a'u hannog i ymuno. Rwy'n edrych ymlaen at gwrdd â chi.

Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro

Her Beicio – Llundain i Baris

Mae dau Eriatregydd sy'n gweithio ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Dr Biju Mohamed a Dr Govind Menon, yn bwriadu beicio o Lundain i Baris dros 3 diwrnod i godi arian ar gyfer Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro i gefnogi Gwasanaethau Cof a Parkinson's Caerdydd a'r Fro. Mae'r ddau gydweithiwr hyn

wedi bod yn hyfforddi'n anhygoel o galed, a'u gobaith yw codi arian i fynd tuag at ymchwil a chefnogi gofal cleifion uniongyrchol, fel gwella cwnsela, addysg a chefnogaeth pan fydd pobl yn cael diagnosis anodd sy'n newid eu bywydau.

[Darllenwch ragor yma.](#)

Rhaglen y Celfyddydau ar gyfer Iechyd a Lles

'Our Art Asset' – Arddangosfa Ysbyty'r Barri

Rydym yn falch iawn o gyflwyno 'Our Art Asset', sy'n arddangos gwaith celf a gyfrannwyd o 'Arwerthiant Celf Ar-lein y GIG 2022' a gynhaliwyd yn Oriel yr Aelwyd y gwanwyn hwn.

Mae'r holl waith sy'n cael ei arddangos ar gael, ac wedi'i roi'n garedig gan artistiaid lleol sydd wedi gweithio gyda ni dros y blynyddoedd, a rhai sy'n newydd i Raglen y Celfyddydau ar gyfer Iechyd a Lles. [Darllenwch ragor yma.](#)

Yr artist Dilys Jackson yn dadorchuddio gwaith celf yn Ein Dôl Iechyd

Ddydd Mercher 20 Gorffennaf, gwnaethom fynychu Diwrnod Agored yn Ein Dôl Iechyd yn Ysbyty Athrofaol Llandochoau. Yng nghanol y gwyrddni hardd, croesawyd yr artist Dilys Jackson i'r safle i ddadorchuddio ei cherflun Pail. Dilys Jackson yw un o gerflunwyr mwyaf blaenllaw Cymru sydd ag enw da yn genedlaethol ac yn rhyngwladol am greu cerfluniau, gosodiadau a darluniau celfydd Efydd a Cherrig. Hoffem ddiolch i Dilys am greu'r cerflun nodedig hwn ar gyfer Ein Dôl Iechyd a fydd, fel y gwyddom, yn ysbrydoli ein cleifion, staff, ymwelwyr a'r gymuned ehangach. [Darllenwch ragor yma.](#)

